

Cyngor Tref
PWLLHELI.

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6.30.yh NOS IAU 5 CHWEFROR
2015.YN SIAMBR Y CYNGOR TREF ,STRYD PENLAN, PWLLHELI.

Cof;-0102/15 Presennol

.....

Y Maer, Cyng. M Sol Owen.

Dirprwy Faer, Cyng. Henry Williams.

Cyng. Elfed Gruffydd, Mici Plwm, Jonathan Roberts, Euriog Evans, J G Owen, Eric Wyn
Roberts, Dewi O Jones, Alan Williams, Parch Ioan Gruffydd, Myrddin Owen, Iwan Edgar.

Cof;-0202/15 Ymddiheuriadau,

.....

Cyng. E J Hughes, Michael Parry

Cof;-0302/15 Datgan Diddordeb.

.....

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan diddordeb mewn materion oedd wedi ei rhestru ar y rhaglen
ac i'w trafod yn y cyfarfod.

Cof;-0302A /15 Cyflwyniad gan swyddog cynhwysiant digidol Bwrdd Betsi Cadwalader.

.....

Estynnwyd Croeso i Mr Medwyn Williams i gyflwyno Prosiect Cartref sydd yn cael ei rhedeg
gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwalader, prosiect 3 mis yw hon i dreialu Telefeddygaeth i gefnogi
cleifion oedrannus a bregus cefn gwlad, Mae'r gwasanaeth i'w gael yn ysbyty Bryn Beryl ac
Allt Wen. Mae'r prosiect yn unigryw i'r ardal yma ar hyn o bryd.

Diolchwyd i Mr Williams am ei gyflwyniad a gobeithir y bydd y prosiect yn llwyddiant gan y
gall arbed arian sylweddol i bawb

Cof;-0402/15 Gair gan y Maer

.....

Nid oedd gan y Maer lawer i'w adrodd gan na fu galw arno ef na'r Faeres i unrhyw
ddigwyddiadau yn ystod y Mis, cymerodd y cyfle i atgoffa pawb fod angen rhoi baneri i fyny
erbyn digwyddiad Pared Dei Sant ddiwedd y mis.

Cyngor Tref PWLLHELI.

Dyweddod fod pwyllgor y Pared yn gofyn am wirfoddolwyr i gynorthwyo yn ystod y digwyddiad.

Cof;-0502/15 Materion Cyfansoddiadol a Staff.

.....
Nid oedd unrhyw beth i'w drafod.

Cof;-0602/15 Aelodau'r Cyhoedd yn bresennol.

.....
Yr oedd 1 Aelod o'r wasg yn bresennol.

Cof;-0702/15 Cadarnhau Cofnodion cyfarfod Mis Ionawr 2015.

.....
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfodydd Mis Ionawr fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r gyfraith

Cof;;- 0802/15 Materion yn codi tryw ohebiaeth

.....

- a) Gwarchodfa Natur Lon Cob Bach
Derbyniwyd ymateb gan Swyddog o Gyngor Gwynedd yn cadarnhau ei fod am gael golwg ar y safle a gwneud popeth fydd yn bosibl.

PENDERFYNIAD;Derbyn adroddiad y Swyddog a'i atgoffa am y gordyfiant yn Winllan Lloyd, mae gwaith ardderchog wedi ei wneud yn clirio ochr yr Harbwr, Gofynnwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod safle gyda'r Swyddog i drafod Gwinllan Lloyd ymhellach ac etholwyd i gynrychioli'r Cyngor, Y Maer,Dirprwy Faer, Cyng. Elfed Gruffydd, Jonathan Roberts a Myrddin Owen.

- a) Harbwr Mewnol
Eglurwyd gan Swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru ei bod wedi gallu dod tros ben yr anawsterau a bydd myd allan id end dydd Gwener 9 Ionawr 2015 gyd dydd Gwener 25 Ionawr 2015 y dyddiad cau a gobeithio rhoi'r contract allan dydd Mercher 28 Ionawr 2015 ac yna dechrau ar y gwaith yn ystod Mis Chwefror 2015.

PENDERFYNIAD; Derbyn yradroddiad a chadw golwg ar y sefyllfa.

Cyngor Tref PWLLHELI.

a) Ffordd Caerdydd.

Eglurwyd gan Swyddog o Gyngor Gwynedd mai cyfeirio at rwydwaith cefnffyrdd (Trunk Roads) oedd Gweinidog y Cynulliad yn yr erthygl yn y wasg ac nid ffordd Sirol felly nid yw'r prosiect yn gymwys i Bwllheli, Mewn perthynas â gwelliannau i'r groesfan ger yr Ysgol, mae'r Swyddog wedi gofyn am ddiweddariad gan yr Adran Briffyrdd gan mai hwy sydd yn gyfrifol cam drefnu gwaith, unwaith y bydd wedi deryn ymateb bydd yn cysylltu ymhellach

PENDERFYNIAD;- Derbyn yr adroddiad ac atgoffa Cyngor Gwynedd nad oes unrhyw beth wedi digwydd yn dilyn y cyfarfod safle beth amser yn ôl

Cof;-0902/15 Ceisiadau Cynllunio

.....

a) Cais Rhif C15/0047/45/LL:

Adeiladu balconi newydd yn lle'r balconi presennol
Cil y Werydd, 9A Bro Cymerau

PENDERFYNIAD;- Argymell Caniatáu.

(Ni chymerodd y Cyng. Michael Sol Owen yr Aelod Lleol ar Gyngor Gwynedd unrhyw ran yn y trafodaethau, penderfyniadau na phleidleisio ar y cais uchod, cymerwyd y gadair gan y Dirprwy Faer yn ystod yr eitem uchod)

Cof 1002/15 Llifogydd.

.....

Deallwyd fod Cyngor Gwynedd wedi cynnal arddangosfa yn ddiweddar yn Neuadd Dwyfor, yn anffodus bu diffyg hybysybu ar ran Gwynedd, nid oedd y Cyngor Tref yn gwybod dim amdano. Bu i'r Clerc gymryd y mater i fyny gyda hwy,cydnabyddwyd fod camddealltwriaeth wedi bod rhwng gwahanol adrannau o fewn Cyngor Gwynedd a'i bod yn awry yn ail drefnu arddangosfa yn ystod yr wythnosau nesaf. Addawyd rhoi rhybudd digonol i'r Cyngor Tref o'r dyddiad a'r amser.

PENDERFYNIAD;- Derbyn yr wybodaeth

Cof;-1102/15 Cofeb Cynan.

.....

Adroddodd Aelod ei fod wedi cysylltu â'r Llyfrgell Genedlaethol i gael gwybod os oes ganddynt hwy luniau ond heb eto dderbyn ymateb.

Cyngor Tref PWLLHELI.

PENDERFYNIAD;- Yr Aelod i ddilyn hyn i fyny a phawb i wneud ymholiadau am unrhyw luniau dod a hwy i gyfarfod nesaf y Cyngor Tref ac yna dilyn y mater ymhellach gan obeithio y bydd popeth yn barod i roi archeb am y cerflun.

Cof;-1202/15 Baneri

.....

Adroddodd Aelod fod y Baneri newydd wedi cyrraedd a bod angen ei gosod ar bolion ac yna trefnu i'w dosbarthu a'i gosod o gwmpas y Dref cyn diwedd y Mis ar gyfer Pared Dewi Sant, Mae'r Baneri a'r polion yn ei fodurdy ac mae croeso i unrhyw Aelod fynd yno ar unrhyw adeg i ddechrau ar y gwaith gosod, wedi cwblhau hyn bydd angen trefnu diwrnod i'w gosod o amgylch y Dref.

PENDERFYNIAD; Diolchwyd i'r Aelod ac addawodd pawb wneud ei rhan.

Cof;-1302/15 Cynllun Datblygu Gwynedd a Môn ar y cyd

.....

a) Llythyr y Cyng. Iwan Edgar

Gan nad oedd y Cyngorydd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Tref pasiwyd i roi'r mater o flaen y cyfarfod yma, yr oedd y llythyr yn codi amryw o bwyntiau ac mae copi llawn ohono ar ffeil y Cyngor Tref.

(Gwelir adroddiad yng nghofnodion y Cyngor Rhif 1201/15)

Rhodddwyd cyfle i'r Cyngorydd egluro ymhellach y pwyntiau mae wedi ei godi gyda'r Uned yng Nghyngor Gwynedd, a chadarnhaodd nad oedd hyd yma wedi derbyn ateb iddynt.

PENDERFYNIAD; Rhoi'r mater ar raglen nesaf y Cyngor Tref.

b) Dogfen Cyngor Gwynedd.

Derbyniwyd llythyr a dogfen oddi wrth Gyngor Gwynedd yn egluro ei bod am godi Ymwybyddiaeth fod Cyngor Gwynedd a Môn wedi cytuno i gynnal ymgynghoriad Cyhoeddus o gwmpas 16 Chwefror a bydd y cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2015.

Bydd y cyfnod yma yn rhoi cyfle i'r Cynghorau Cymuned gyflwyno sylwadau am unrhyw ran o'r cynllun Adnau .Fe all y Cynghorau weld y strategaeth y polisiau a'r mapiau cynigion fydd yn y cynllun trwy edrych ar adroddiad Pwyllgor Polisi Cynllunio ar Cyd.

Cyflwynodd Y Maer dalfyriad o'r ddogfen ar sgrin.

PENDERFYNIAD; Rhoi'r mater ar raglen y cyfarfod nesaf y Cyngor Tref

Cyngor Tref PWLLHELI.

Cof 1402/15 Baw Ci.

.....

Mae'r Dref bellach wedi mynd yn ffrith o faw ci bron ar bob stryd, mae'r Cyngor yn bryderus iawn am y gweithredu gwrthgymdeithasol hyn.

PENDERFYNIAD;- Anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn;-

1 Oes modd trefnu i'r Gwardeiniaid weithio oriau hyblyg gan fod y troseddu yn digwydd yn aml yn y bore a gyda'r nos,?

2. Oes modd rhoi hawl i'r Wardeiniaid fynd at bobl sydd yn tywys c i ofyn a ydynt yn cario bagiau i'w godi ac os na rhoi cosb iddynt.?

3 Faint sydd wedi cael dirwy am fod yn anghyfrifol o beidio codi baw ei ci?

4 Oes modd i'r Cyngor Tref gael cyflenwad o fagiau i'w dosbarthu yn y siopau ar gyfer trigolion?.

Cof;-1502/15 Ysbwriel o amgylch y Dref

.....

Tynnwyd sylw gan Aelod i'r ysbwriel sydd yn cael ei adael o gwmpas y Dref, y cyhoedd yn rhy ddiog i'w roi yn y biniau sydd ar y strydoedd,
Mae hyn yn gyfystyr a gweithredu yn wrthgymdeithasol.

PENDERFYNIAD;- Rhoi gwahoddiad i Cadw Cymru'n Daclus i gyfarfod y Cyngor i gael syniadau ar drafod y ffordd ymlaen.

Cof;-1602/15 Llwybr Beicio Pwllheli i Lanbedrog.

.....

Derbyniwyd copi o ymateb y Cynulliad Cenedlaethol i Gyngor Cymuned Llanengan, yn egluro mai Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Lleol sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu llwybrau addas a diogel ar gyfer teithio llesol rhwng Pwllheli ac Abersoch.

Ar hyn o bryd mae'r Cynulliad yn gweithio gyda'r Awdurdodau Lleol i sicrhau bod y dyletswyddau sydd yn dod o dan ddeddf Teithio lesol Cymru yn cael ei rhoi ar waith
Mae'r Cynulliad yn rhoi arian ar gyfer adeiladu nifer o lwybrau beicio, arian grant a ddaw trwy gronfa Trafnidiaeth Leol yn 2014/15 ond nid yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud cais am arian ar gyfer llwybr beicio o Bwllheli i Abersoch.

Mae Awdurdodau Lleol yn y Gogledd wrthi'n llunio Cynllun Trafnidiaeth leol a y cyd ac mae'n bosibl y bydd y llwybr hwn yn cael ei gynnwys yn y cynllun a gyflwynir gan Gyngor Gwynedd.

Cyngor Tref PWLLHELI.

PENDERFYNIAD;- Derbyniwyd yr wybodaeth ac felly anfon at Gyngor Gwynedd a gofyn iddynt wneud cais swyddogol i'r Cynulliad Cenedlaethol am arian grant.

Cof;- 1702/15 Stryd Moch
.....

Bu trafodaeth unwaith eto ar y syniad o greu'r stryd yn unffordd i'r traffic. Mae'r Cyngor ar ddeall fod Cyngor Gwynedd wedi paratoi cynlluniau ag gyfer hyn beth amser yn ôl.

PENDERFYNIAD;- Rhoi gwahoddiad i Swyddog o Gyngor Gwynedd gyfarfod y Cyngor Tref i gael trafodaeth bellach ar y mater.

Cof;-1802/15 Coeden ym Maes Parcio Stryd Penlan
.....

Tynnwyd sylw fod coeden wedi marw yn y maes parcio a bod angen rhoi sylw iddi.

PENDERFYNIAD;- Anfon at Gyngor Gwynedd i dynnu ei sylw i'r mater.

Cof;-1902/15 Cyfyngiad cyflymder ar Ffordd Abererch.
.....

Derbyniwyd rhybudd gan Gyngor Gwynedd ei bod yn bwriadu cyflwyno gorchymyn cyfyngiad cyflymder i 40 m.y.a. ar ran o Ffordd Abererch ac os oes gan y Cyngor Tref unrhyw sylwadau rhaid ei gyflwyno o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y llythyr(22 Ionawr 2015) os na dderbynnir unrhyw sylwadau erbyn y dyddiad cau bydd Cyngor Gwynedd yn symud ymlaen gyda'r gorchymyn.

PENDERFYNIAD;-Cefnogi'r argymhelliad.

Cyngor Tref
PWLLHELI.

Cof;-2102/15 Derbyniadau.
.....

£250.00 Rhent Arced
£250.00 Rhent Arced
£ 3.08 Llog N S Bond.

PENDERFYNIAD;- Derbyn adroddiad y Clerc

Cof;-2202/15 Taliadau.
.....

£975.00 Ad daliad benthyciad	D.D.
£ 35.28 Copi – Nwyddau Swyddfa	202626
£ 81.19 Shaw & Co. – Llyfr Cofnodion	202627
£ 50.00 Mr G A Roberts - Glanhau Siambr	202628
£294.75 Cyllid y Wlad	202629
3 16.50 Kon X Wales - Llundain	202631

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr wybodaeth a rhoi hawl i'r Clerc dalu'r oll o'r biliau.

Caeedig

Trafod Cadwyn Y Maer.

Symud ymlaen i drwsio ac ychwanegu linciau i'r gadwyn.

Aeth y Cyngor yn ól yn agored

Daeth y cyfarfod i ben am;- 8.15 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 5 Mawrth 2015

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 23 Chwefror 2015